

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk

Clerc: Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher 12.11.25 – 7.15yh yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

Presennol: Geraint Edwards (GE) - Cadeirydd, Keith Carroll (KC) - Is Gadeirydd, Geraint Micah (GM), Megan Griffiths (MG), David Griffiths (DG), Louise Hughes (LH) - Cyngorydd Sirol, Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Huw Davies, Ian Williams, Cath Severn.

2.a **Datgan Diddordeb:** Dim.

6.30 – 7.15 yh - Cyfarfod y Cynghorwyr gyda David Coleman.

Ynglyn a Ffordd/Prifffordd Ddi-ddosbarth –Parc Carafanau Sunbeach.

Adroddodd David Coleman ei gefndir i aelodau'r Cyngor Cymuned – ac ei fod yn yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd mewn perthynas â thimau Priffyrdd a Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd. Trafodwyd gyda'r aelodau y camau a gymerwyd hyd yma. Teimlwyd ei bod yn annhebygol (er nad yn amhosibl) y gallai'r Cyngor fod yn llwyddiannus mewn unrhyw achos, ond byddai angen tystiolaeth helaeth o ble yn union oedd y ffordd a'r llwybr i'r traeth. Nodwyd bod Hawl Tramwy Ganiataol wedi'i gynnig ond nad oedd wedi'i dderbyn gan nad oedd ganddo unrhyw ddylanwad cyfreithiol a gellid ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Awgrymodd David Coleman y gellid ceisio hawl tramwy bwrpasol fel dewis arall ac argymhellodd y dylai'r Clerc ymchwilio i hyn. Awgrymodd hefyd y dylid ymchwilio i adran s31 o Ddeddf y Priffyrdd. Roedd angen sefydlu hefyd gydag Allens pa lwybr y byddai'r hawl tramwy ganiataol wedi'i gymryd gan mai'r ystyriaeth arall oedd Network Rail pe bai angen mynediad ar draws llinell y Cambrian.

GWEITHRED: Y Clerc i ymchwilio ymhellach a cheisio sefydlu llwybr yr hawl tramwy ganiataol. Dywedodd David Coleman wrth y Clerc, os oedd angen unrhyw gymorth, y byddai'n hapus i gynorthwyo.

Agorodd y Cyfarfod Cyffredin am 7.25yh.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **08.10.25** yn gywir.
Cynnig: GE **Eiliwyd:** KC **Arwyddwyd:** GE

4. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 08.10.25

1. Diweddariad ar reiliau'r cae chwarae

Diweddarodd JJ y Cyngor yn unol ag e-bost a dderbyniwyd gan Cath Severn. Mae un ochr i'r rheiliau bellach wedi'i cwblhau, mae angen brwsio gwifren ar hanner y rheiliau ar yr ochr dde ar y ddwy ochr ac mae angen mwy o baent cyn y gall y gwaith barhau. Mae marciwr ar yr ochr dde i nodi ble mae'r gwaith wedi'i gwblhau hyd yn hyn.

Gofynnodd KC am gymorth ariannol ar gyfer y paent/deunyddiau a chredai fod angen o leiaf 8 pot arall o baent. Amcan bris Huws Gray oedd £184 - llai unrhyw ostyngiad y gellid ei sicrhau, ac unrhyw TAW sy'n berthnasol.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i ariannu'r paent i barhau â'r gwaith. Bydd KC yn prynu'r paent a dywedodd y Clerc fod rhaid darparu anfoneb wedi'i wneud allan i'r Cyngor Cymuned er mwyn ad-dalu.

2. Coeden Nadolig

Diweddarodd y Clerc yr aelodau ynglyn a'r goeden a archebwyd gan Geraint Evans a'r amcan gost. Cytunwyd bod coeden 20 troedfedd yn ddigonol. Dywedodd GE y byddai'r goeden hon yn cael ei chodi yn Llwyngwrl a byddai ffrâm y goeden Nadolig "wifren" yn cael ei gosod yn Rhoslefain. GE a HD i godi ac addurno coeden Rhoslefain. Gofynnodd GE am gymorth

gan y Cyngorwyr gyda'r goeden yn Llwyngwrl unwaith y bydd y casgliad wedi'i drefnu. Bydd GM yn casglu'r goeden yn ystod penwythnos cyntaf Mis Rhagfyr a bydd yn cysylltu'n uniongyrchol â Geraint Evans ynghylch y casgliad. Y Clerc i hysbysu Geraint Evans y bydd GM mewn cysylltiad ac yn gofyn am anfoneb er mwyn gallu gwneud taliadau.

GWEITHRED: Y Clerc i ddiweddarw Geraint Evans a gofyn am anfoneb.

3. E-byst y Cyngor

Pwysleisiodd GE fod angen i'r Cyngorwyr gadw golwg ar e-byst o leiaf unwaith yr wythnos.

4. Canlyniad Apêl Sunbeach

Dim gwybodaeth ar gael – Y Cyngorydd Sirol - Louise Hughes i gysylltu â PEDW i weld a oes unrhyw newyddion.

5. Diweddariad ar y Llwybr Arfordirol –

Y Cyngorydd Louise Hughes yn cadarnhau nad oedd diweddariad hyd yma.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn

1. E-bost gan y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghylch yr ymgynghoriad.

Wedi'i nodi.

2. Llythyr Ymddiswyddo

Wedi'i dderbyn a'i nodi. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr yn cydnabod ei ymddiswyddiad ac i diolch i Jane Lawrence am ei hamser ar y Cyngor Cymuned. Bydd angen cael "Hysbysiad o Swydd Wag Achlysurol" i hysbysebu'r sedd wag.

GWEITHRED: Y Clerc i anfon e-bost a chael Hysbysiad o Swydd Wag Achlysurol.

3. Llythyr wedi ei dderbyn gan Sian Gwenllian yn diolch am y gefnogaeth i ysgol ddeintyddol ym Mangor

Wedi'i nodi.

6. Materion Cynllunio: Dim

7. Adroddiad Ariannol:

1. Datganiad cyllid misol ar gyfer Mis Hydref 2025

PENDERFYNWYD: Cytunwyd yn unfrydol fel cyfrif gwir

Cynnig: DG Eiliwyd: GE Llofnodwyd: GE

2. Anfonebau/Taliadau –

Cyflog a chostau'r Clerc, Toiledau Cyngor Gwynedd, Lleng Brydeinig Frenhinol, Coeden Nadolig.

Clerc yn hysbysu bod dwy anfoneb hefyd wedi'u derbyn gan GM mewn perthynas â thorri'r gwair a'r Cof Golofn.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i wneud pob taliad a llofnodi'r sieciau. Taliad am y goeden Nadolig wedi'i gymeradwyo ond dim anfoneb eto felly siec wedi'i llofnodi yn barod.

GWEITHRED: Y Clerc i wneud taliadau a chyflwyno copi o'r anfoneb torri gwair i dîm Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd ar gyfer ei cyfraniad blyneddol.

3. Rheoliadau Ariannol

Darllenodd yr aelodau'r ddogfen "Rheoliadau Ariannol" a gwnaed sawl gwelliant bach i'r ddogfen yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i dderbyn y ddogfen ddiwygiedig a mabwysiadwyd y Rheoliadau Ariannol.

4. Rheolau Sefydlog

Darllenodd yr aelodau drwy'r ddogfen – nid oedd angen unrhyw welliannau. Trafodwyd hyfforddiant Cod Ymddygiad ac etholwyd sawl Cynghorydd i ymgymryd â'r hyfforddiant, a fydd yn cael ei drefnu gan y Clerc i MG, GE, KC a GM. Dyddiadau ar gael = 18.11.25 / 24.11.25 / 2.12.25 / 17.12.25.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i dderbyn y ddogfen a mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog.

GWEITHRED: Y Clerc i ddiweddarau'r wefan gyda'r Rheolau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog a threfnu'r hyfforddiant.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim i'w drafod.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

- 1. Trafodaethau ar yr Adolygiad Ymarfer Plant, Gwynedd 2024.
- 2. Trafodwyd y Diwygio Bysiau, er nad oes unrhyw benderfyniadau eto, mae'n debygol o effeithio'r gwasanaeth wledig.
- 3. Bydd treial mewn rhai ardaloedd o ailgylchu gwastraff gan ddefnyddio sachau hessian yn hytrach na'r trolïau plastig ailgylchu glas presennol.

10. Unrhyw Fater Arall:

- 1. Nododd DG fod cerbydau yn parcio o flaen y diffibriliwr ar ochr y ffordd ger Gwastagoed.
- 2. Nododd KC fod y potiau blodau yn dal ar y palmant ger Bron Rhiw, er gwaethaf e-bost gan Adrian Williams (Mis Medi). Gofynnodd a ellid anfon e-bost arall.
- 3. Cynghorodd GE fod sawl blwch ailgylchu glas ar goll o'r biniau ailgylchu cymunedol ger Gwastagoed, a gofynnodd am e-bost gael ei anfon i Gyngor Gwynedd i ofyn am rai newydd.
- 4. Darllenodd y Clerc e-bost a dderbyniwyd gan CS ynghylch digwyddiad yn y pentref, a goryrru yn gyffredinol. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn ynglyn a ffyrdd a allai gael ei defnyddio i arafu traffig wrth y siop yn y pentref.

Cyfarfod wedi dod i ben am 9.00yh

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 10.12.25 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwrl

Arwyddwyd R G Edwards
Cadeirydd Dyddiad ... 10.12.25